William Williams, Pantycelyn, ‘Y Pêr Ganiedydd’, 1717–91
Emynydd, diwygiwr, clerigwr Methodistaidd ac awdur

Ganwyd William Williams yn y Cefn-coed, Llanfair-ar-y-bryn, Caerfyrddin, yn un o chwech o blant John a Dorothea Williams. Ef oedd yr unig un o blith tri o feibion a gafodd fyw i fod yn oedolyn. Bu ei dad yn henadur yn eglwys Annibynnol Cefnarthen hyd nes i Arminiaeth rwygo’r achos yn ddwy. O ganlyniad ymneilltuodd y teulu gan gychwyn achos a gyfarfyddai yn fferm Clinpentan. Yn ddiweddarach adeiladwyd capel Pentre-ty-gwyn ar dir Pantycelyn. Fe gafodd ei addysg gynnar yn Athrofa Llwyn-llwyd gyda’r bwriad o fynd yn feddyg, a hynny o dan arweiniad y Parch. David Price, gweinidog eglwys Annibynnol Maesyronnen, ond yn ystod ei dymor yno fe gafodd dröedigaeth. Ym 1738 y digwyddodd hynny, ym mynwent eglwys Talgarth, wrth iddo wrando ar Howell Harris yn pregethu. Fel hyn y canodd Pantycelyn am y profiad yn ddiweddarach:

Dyma’r boreu, fyth mi gofiaf,
Clywais innau lais y nef;
Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod
Gan ei sŵn dychrynllyd ef;
Dyma’r fan, trwy byw mi gofiaf,
Gwelais i di gynta erioed,
O flaen porth yr Eglwys eang,
Heb un twmpath dan dy droed.

Ymunodd â’r Eglwys Sefydledig ac fe’i hordeiniwyd yn ddiacon gan Nicholas Claget ym Mhlas Abergwili ym 1740, a bu’n gurad yn Llanwrtyd, Llanfihangel a Llanddewi Abergwesyn hyd 1743. Bu mewn helbul hefo llys yr esgob oherwydd ei gydymdeimlad â’r Methodistiaid, ac o’r herwydd gwrthododd Esgob Tyddewi ei

ordeinio'n offeiriad. Canlyniad hyn oedd iddo ymroi yn llwyr i'r mudiad Methodistaidd gan ddod yn un o'r prif arweinyddion yng Nghymru.

William Williams oedd prif emynydd y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru ac ni ellir gorbwysleisio dylanwad ei emynau ar y Methodistiaid ac yn wir ar Ymneilltuaeth yn gyffredinol wedi hynny. Cynhaliwyd cwrdd misol yn nhŷ Jethro Dafydd Ifan oddeutu 1743 ac un o'r materion a gododd oedd yr angen am emynau Cymraeg addas i'w defnyddio. Anogodd Howell Harris y sawl oedd yn bresennol i gyfansoddi emyn erbyn y cwrdd dilynol. Gwnaed felly, ac wedi i bawb adrodd ei waith dywedodd Harris, 'Williams biau'r emyn,' ac felly y bu. Cyhoeddodd ei emynau ar ffurf llyfrynnau ac ymddangosodd y cyntaf ym 1744 yn dwyn y teitl *Aleluia*. Erbyn 1787 yr oedd 27 llyfryn o'i emynau wedi eu cyhoeddi.

Nid emynau yn unig a gyfansoddodd oherwydd cyhoeddodd hefyd ddwy gân fawr, sef *Golwg ar Deyrnas Crist*, (1756) a *Theomemphus* (1764). Y mae'r gyntaf yn ceisio cloriannu bwriadau Duw yn y greadigaeth, a'r ail yn olrhain taith ysbrydol Cristion a'r profiadau a ddaeth i'w ran. Cyfansoddodd hefyd oddeutu 28 o farwnadau i bobl fel Howell Harris a Daniel Rowland ac ysgrifennodd nifer o lyfrau rhyddiaith. Ceir ei enw ar dros 90 o lyfrau rhwng 1744 a 1791. Erbyn hyn cofir amdano'n bennaf oherwydd ei emynau, sy'n parhau i ysbrydoli Cristnogion. Meddai William Williams ar y ddawn anghyffredin o gyfleu teimladau mewnol Cristnogion mewn geiriau ac idiomau dealladwy, fel bod llawer o'i emynau'n mynegi profiadau dwysaf yr addolwr. Gwelwn hyn yn glir yn y pennill isod:

Iesu ei hunan yw fy mywyd,
Iesu'n marw ar y groes:
y trysorau mwyaf feddaf
yw ei chwerw angau loes;
gwacter annherfynol ydyw
meddu daear, da na dyn;
colled ennill popeth arall
oni enillir di dy hun.

Oddeutu 1748 priododd â Mary Francis o Lansawel ac aeth i fyw i hen gartref ei fam ym Mhantycelyn. Cawsant ddau fab, sef William a fu'n gurad yng Nghernyw, a John William. Teithiodd trwy Gymru drwy gydol ei oes yn arolygu seiadau ac yn pregethu. Bu farw'n dangnefeddus ar 11 Ionawr 1791 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys yn Llanfair-ar-y-bryn gerllaw Llanymddyfri.